

# Cylchdaith – Rhosneigr (SH321727)

Gweler y map isod

## 1. Pont Tywyn Y Llyn – Bompren ar draws y nant ym mhen pellaf y llyn

Man parcio oddi ar y ffordd tua'r chwith yn syth heibio'r bont ffordd ar yr A4080 wrth ddod at Rosneigr o gyfeiriad Gorllewin, gan fynd heibio Gwesty Maelog Lake ar y chwith. Dilynwch y daith gerdded hon mewn cyfeiriad clocwedd ar y map. Mae'r rhan gyntaf o'r daith yn mynd o gwmpas Llyn Maelog ac yn dilyn llwybrau clir. Dechreuwch gerdded wrth arwydd y llwybr troed a'r llwybr llawr coed ar y ffordd o Rosneigr. Croeswch y bompren a dilyn y llwybr llawr coed rhwng y ffens fetal a'r cyrs ar eich llaw dde. Ewch ar hyd y llwybr nes cyrraedd diwedd y llwybr llawr coed ger y llyn ac yno mae ynys fechan lle mae cyfle bob amser i weld nifer o adar (dowch â sbienddrych gyda chi).


Dilynwch y llwybr at y ty ble mae'r giât mochyn a wal frics ar eich llaw chwith. Ewch i fyny'r steps i'r cae nesaf lle mae craig yn codi o'r ddaear ac arwydd yno yn nodi bod y lle yn ardal gadwraeth bywyd gwyllt. Wedyn mae'r llwybr yn dilyn y rhedyn ar draws y cae i gyfeiriad carafannau a thrwy giât mochyn lle mae arwydd Gwobr Aur Cadwraeth David Bellamy i Tŷ Hen 99 - 06. Dilynwch yr arwydd yr ochr draw i'r giât a mynd tua'r dde ar hyd ochrau'r llyn (peidiwch â mynd dros y gamfa i gyfeiriad y carafannau), a cherddwch rhwng y creigiau gan ddilyn pyst gyda marciau melyn arnynt trwy dwf uchel i'r cae a thrwy giât mochyn arall lle mae rhagor o arwyddion i'r postyn marc melyn nesaf ac i lawr i ochr y llyn, mynd heibio i'r creigiau ar yr ochr dde ac ymlaen at y bompren ar draws y nant ym mhen pellaf y llyn.

## 2. Bompren ar draws y nant ym mhen pellaf y llyn – blwch postio

Wedyn mae'r llwybr yn dilyn ochr ddwyreiniol y llyn. Dilynwch y llwybr ger y llyn hyd at yr eithin ar eich llaw chwith a chyrraedd creigiau ac wedyn mynd tua'r chwith tuag at y giât mochyn a dilyn y llwybr wedyn hyd at giât o goed teip giât mochyn. Dilynwch ochr y llyn hyd at giât mochyn ac at giât arall o'r un math. Wedyn mae'r llwybr yn mynd rhwng coed ifanc a man glaswelltog agored ymlaen at giât ac wedyn giât mochyn ac arwyddion ar lôn fechan. Trowch i'r dde ar y lôn a mynd heibio giatiau ar eich chwith a chyrraedd y gyffordd ar yr A4080.

## 3. Blwch postio – Pont Tywyn Y Llyn

Trowch tua'r dde ar yr A4080 dros y bont ac ar draws y ffordd at yr arwydd llwybr troed cyhoeddus yn ymyl y blwch postio. Dilynwch y lôn wyneb tarmac hon gyda manau pasio, yn mynd heibio'r arwydd llwybr troed cyhoeddus ar y chwith a Pharc Carafannau Penser i a pharhau ar y lôn. Trowch tua'r dde yn ymyl y marciwr ffordd ychydig cyn y tai sy'n edrych dros y traeth. Trowch tua'r chwith a thrwy'r twyni tywod i'r traeth ym mhen draw'r tai, a throwch tua'r dde i gerdded ar hyd Traeth Llydan tuag at Rosneigr i gyrraedd yr afon sy'n rhedeg o Lyn Maelog i'r môr. Trowch tua'r dde ar hyd lan yr afon i groesi pont droed i'r man picnic. Dilynwch y llwybr tuag at y tai a throi tua'r dde yn ymyl y wal i ddychwelyd i'ch man cychwyn.



Tra bod pob ymdrech wedi ei wneud i sicrhau bod yr holl wybodaeth yn gywir ar amser y cyhoeddiad, ni ellir derbyn unrhyw gyfrifoldeb am gamgymeriadau neu esgeulustod.